**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD**

**AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG**

**2019-20**

## 1. Cefndir

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith gyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safonau unigol yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Yn sgil ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r iaith Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith, ac yn wir, roedd y Cynllun hwn yn mynd ymhellach na safonau'r Gymraeg mewn sawl maes.

Lluniwyd Polisi Iaith newydd yn ystod 2016, er mwyn eistedd ochr yn ochr â Safonau'r Gymraeg, a sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn parhau i ateb anghenion y boblogaeth leol drwy gynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol ac hefyd i sicrhau parhad o weinyddiaeth fewnol cyfrwng Cymraeg y Cyngor.

## 2. Sicrhau Cydymffurfiaeth efo Safonau'r Gymraeg

Prif gyfrwng y Cyngor ar gyfer gweithredu yn unol a'r Safonau iaith a sicrhau gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i drigolion Gwynedd yw ei Bolisi Iaith. Nod Polisi Iaith Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dilynir yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ond gan weithio yn rhagweithiol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth bob amser.

Yn sgil blynyddoedd o osod gofynion iaith wrth recriwtio, ac o gynnig hyfforddiant i wella sgiliau a dysgu'r Gymraeg, rydym wedi sicrhau bod mwyafrif llethol staff y Cyngor yn gallu'r Gymraeg ac yn gallu gweithredu'n unol â'r polisi hwn, gan normaleiddio defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael yn ddi-ofyn.

Gellir gweld y Safonau y mae'r Cyngor yn gorfod cydymffurfio a nhw yn eu cyfanrwydd, ynghyd a chopi o Bolisi Iaith gyfredol y Cyngor, drwy fynd i dudalen Safonau a Pholisi y wefan gorfforaethol:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cydraddoldeb-ac-iaith/Safonaur-Gymraeg-a-Pholisi-Iaith.aspx

* * *

Diweddarwyd y Polisi Iaith yn 2016, yn sgil dyfodiad y Safonau Iaith, ac mae wedi bod yn gyfrwng effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r Safonau ymysg gwasanaethau a staff, ond wedi gweithredu dan y drefn honno am dair blynedd, rydym bellach wedi adnabod yr angen i ddiweddaru ac addasu'r polisi unwaith eto, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau cyson yn y modd yr ydym yn darparu gwasanaethau a'r heriau sydd yn ein hwynebu o ran sicrhau cynnig rhagweithiol.

Un o'r heriau mwyaf sydd yn ein wynebu yw sut ydym yn addasu i ddefnyddio mwy o dechnoleg ac i sicrhau nid yn unig y dewis iaith a'r cynnig rhagweithiol, ond sut rydym yn gallu annog y trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'n gwasanaethau.

Bydd diweddaru'r polisi iaith i gyd-fynd gydag arferion gwaith cyfredol felly yn rhan allweddol o'n gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth dros y flwyddyn nesaf.

* * *

Yn adran nesaf yr adroddiad, byddwn yn rhoi crynodeb o'r prif ddatblygiadau ym maes y Gymraeg a chydymffurfiaeth yn ystod y flwyddyn, gan roi diweddariad hefyd ar rai o'r meysydd datblygol y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad 2018-19.

Mae'n bwysig nodi mai **meysydd datblygol** yw rhain, ac nad ydynt yn feysydd lle mae modd cael atebion sydyn, dros nos, ar eu cyfer. Maent yn aml yn ymwneud efo meysydd gwaith newydd neu gyda meysydd lle mae heriau cymhleth yn ein hwynebu.

**2.1 Gwaith datblygol a wnaed yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella cydymffurfiaeth a sicrhau'r gwasanaeth Cymraeg gorau ar gyfer trigolion Gwynedd**

| MAES GWAITH | DATBLYGU GWELL DEALLTWRIAETH O ARFERION POBL |
|---|---|
| **Safonau perthnasol** | **Cyflenwi Gwasanaeth** : **7, 14, 21, 30, 32**<br><br>Safonau yn ymwneud â **gofyn** i unigolyn a ydynt yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg neu ddatgan ein bod yn croesawu cyswllt yn Gymraeg |
| **Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn 2019-20** | **Yn adroddiad 2018-19, dwedwyd:**<br><br>*...rydym yn cydnabod bod arferion pobl yn newid, a bwriedir blaenoriaethu gwaith ymchwil dros y flwyddyn nesaf fydd yn edrych ar agweddau defnyddwyr, a'u canfyddiadau am gyfrwng iaith gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod yr agwedd yma o'r polisi yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.*<br><br>**Diweddariad 2019- 2020:**<br><br>Cynhaliwyd gwaith arsylwi gan swyddfa'r Comisiynydd yn nerbynfeydd y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ac rydym yn ffyddiog bod y gwasanaethau hynny yn llwyddo i gynnig gwasanaeth Cymraeg, drwy gyfuniad o arwyddion sydd yn gweithredu fel prompts, a chynnig rhagweithiol gan y staff.<br><br>Cychwynnwyd ar waith ymchwil yn ystod y flwyddyn er mwyn ceisio cael gwell dealltwriaeth o arferion pobl wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.<br><br>Rydym wedi penderfynu canolbwyntio'r gwaith ar ddeall arferion defnyddwyr ar y gwasanaethau ar-lein, gan mai hwnnw yw ein pryder mwyaf ar hyn o bryd, a cheir diweddariad o'r gwaith hwnnw dan faes datblygu technoleg isod. |
| **Camau pellach fydd angen eu cymryd yn ystod y flwyddyn nesaf** | Mae'n fwriad gennym gynnal gwaith arsylwi a siopwr cudd er mwyn sicrhau bod cynnig rhagweithiol yn cael ei weithredu ar draws ein gwasanaethau a lleoliadau, ond hefyd i wella'r ddealltwriaeth o'r hyn sydd yn dylanwadu ar ddefnydd pobl o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn gwasanaethau wyneb yn wyneb.<br><br>Hefyd i barhau gyda'r gwaith o fapio a deall defnydd trigolion o wasanaethau ar-lein. |

| MAES GWAITH | DEFNYDD O DECHNOLEG A GWASANAETHAU AR-LEIN |
|---|---|
| **Safonau perthnasol** | **Cyflenwi Gwasanaethau**, yn benodol 52, 55, 56, 57, 58, 59 a 60 |
| **Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn 2019-20** | **Yn adroddiad 2018-19, dwedwyd:**<br><br>*Mae angen gweithio yn barhaus i godi ymwybyddiaeth cwmnïau allanol o'r angen i ddatblygu apiau yn ddwyieithog o'r cychwyn, yn hytrach na gorfod eu haddasu i anghenion bellach ymlaen. Mae hefyd yn parhau yn her pan fydd angen i wefan neu wasanaethau'r Cyngor drosglwyddo i wefannau allanol, megis gwasanaethau talu ar-lein, i sicrhau bod popeth ar gael yn Gymraeg.*<br><br>**Diweddariad 2019 - 2020:**<br><br>Rydym wedi rhoi cryn sylw i'r maes hwn dros y flwyddyn wrth i'r Cyngor yn gyffredinol symud tuag at ddefnyddio mwy ar dechnoleg a hunanwasanaeth ar gyfer ein gwasanaethau. Mae sawl system newydd wedi cael ei datblygu dros y flwyddyn, a rhai eto i fynd yn fyw, fydd yn golygu bod mwy o wasanaethau ar gael ar-lein ar gyfer y trigolion. Mae nifer o'r gwasanaethau lle mae modd i drigolion wneud ceisiadau a thalu ar-lein yn cynyddu. Mae rhai gwasanaethau penodol, megis y gwasanaeth Cynllunio, hefyd wedi lansio system geisiadau newydd ar lein.<br><br>Mae hwn yn faes o bwys am ddau reswm:<br><br>• Mae gennym bryder am ein gallu i gydymffurfio yn llawn gyda'r Safonau ym mhob achos gan fod y dechnoleg a'r ffordd y mae systemau yn cael eu datblygu yn creu rhwystrau yn eu hunain.<br><br>• Mae gennym bryder am y modd y mae'r ffordd newydd yma o gyflwyno gwasanaethau yn dylanwadu ar ddefnydd iaith y trigolion wrth ymgysylltu efo ni. Wrth golli y cyswllt wyneb yn wyneb, rydym hefyd yn colli y dylanwadu sydd gennym wrth wneud y cynnig rhagweithiol, ac felly mae angen i ni ystyried sut y gallwn drosglwyddo hynny i'r byd digidol, er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau ar-lein.<br><br>Rydym yn parhau i asesu pob un o'r datblygiadau hyn yn unigol, ond rydym hefyd yn dal i wynebu sawl her, yn enwedig wrth brynu systemau i mewn nad ydynt wedi cael eu datblygu yn ddwyieithog yn |

| | |
|---|---|
| | y lle cyntaf. Mae gennym swyddogion yn y gwasanaeth TG, ac mewn gwasanaethau unigol, sydd wedi gweithio yn agos gyda datblygwyr i sicrhau bod yr hyn sydd yn cael ei gyhoeddi ar y diwedd yn gweithio yn unol a'r Safonau, ond rydym yn dal i fod yn wynebu rhwystrau wrth geisio integreiddio systemau allanol i'n gwefan.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, cychwynnwyd trafodaeth gyda'r Comisiynydd am y maes hwn, gan ofyn yn benodol am eu cefnogaeth a'u cymorth i ddylanwadu ar rai o'r cwmnïau mawrion sydd yn datblygu apiau a meddalwedd. Rydym wedi rhannu gwybodaeth am y math o apiau rydym yn cael trafferthion gyda nhw – o ap gwersi nofio sydd wedi bod mewn datblygiad ers dros ddwy flynedd, ond nad ydym yn gallu ei rhyddhau am nad yw'n gweithio yn llawn yn y Gymraeg, i ap sydd yn galluogi cyswllt hwylus rhwng ysgolion a rhieni – er mwyn ceisio datblygu'r ddealltwriaeth am y rhwystrau a chanfod ffordd ymlaen fyddai yn sicrhau cydymffurfiaeth a'r gwasanaeth gorau i'r trigolion.<br><br>Gwnaed gwaith ymchwil desg cychwynnol hefyd er mwyn deall arferion pobl wrth ddefnyddio ein gwasanaethau di-gyswllt.<br><br>Edrychwyd yn benodol ar lwybrau defnyddwyr ac arferion chwilio a llywio – h.y. sut y maent yn cyrraedd tudalennau penodol – er mwyn ceisio gweld a oes patrymau yn y modd y mae pobl yn cyrchu'r wybodaeth ac yn cyrraedd at y tudalennau a'r ffurflenni.<br><br>Mae'r holl wasanaethau hyn wrth reswm ar gael yn ddwyieithog, felly nid yw yn faes o bryder cymaint o ran cydymffurfiaeth ond yn fwy o ran sut rydym yn dylanwadu ar ddefnydd iaith ac yn sicrhau bod y dewis iaith yn glir ac yn amlwg ac yn cyd-fynd efo'r egwyddor o gynnig rhagweithiol, yn hytrach na bod modd i unigolyn lywio'r wefan heb weld y Gymraeg o gwbl.<br><br>Rydym hefyd wedi bod yn gweithio ar ddatblygu gallu cyfieithu ar y pryd wrth gynnal cyfarfodydd ar y we. Ddiwedd y flwyddyn ariannol bu i'r gwaith gael hwb mawr yn ei flaen yn sgil sefyllfa Covid-19, a nifer llawer uwch yn cysylltu o gartref. Rydym wedi dod i ddatrysiad dros dro wrth ddefnyddio'r cyfarpar sydd gennym i sicrhau bod y cyfarfodydd hynny sy'n cael eu cynnal dros y cyfnod yn cael eu cynnal yn y ddwy iaith, er gwaetha'r rhwystrau |
| **Camau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf** | Bydd datblygu defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg yn dod yn un o'n blaenoriaethau datblygu dros y blynyddoedd nesaf, gyda phwyslais ar ddeall arferion ac edrych ar y ffyrdd rydym yn cyflwyno gwasanaethau digidol a sut y gallwn ddefnyddio egwyddorion newid ymddygiad a nyj er mwyn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| | Byddwn hefyd yn datblygu'r adnodd cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd dros y we trwy:<br><br>• Geisio perswadio cwmnïau mawr i ddatblygu cyfieithu ar y pryd yn rhan o'u harlwy<br>• Sicrhau datrysiad rhwydd i gyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd dros y we – Mae datblygiadau mawr wedi digwydd yn y maes hwn yn ystod cyfnod Covid ac wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn.<br>• Sicrhau datrysiad rhwydd i alluogi cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd lle bydd rhai yn mynychu ystafell gyfarfod draddodiadol ac eraill yn dewis mynychu o bell. |

| **MAES GWAITH** | **ASESU EFFAITH** |
|---|---|
| **Safonau perthnasol** | 88+89+90+94 |
| **Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn 2019-20** | **Yn adroddiad 2018-19, dwedwyd:**<br><br>*Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi adnabod nad yw'r drefn bresennol sy'n bodoli yn dod â'r canlyniadau a ddymunir o ran sicrhau bod y Cyngor yn manteisio ar bob cyfle i hybu defnydd o'r Gymraeg.*<br><br>*Roedd Adroddiad Sicrwydd y Comisiynydd yn haf 2018 hefyd yn tynnu sylw at yr angen i edrych ar y maes hwn, ac felly mae'r Uned Iaith a'r Swyddog Cydraddoldeb wedi bod yn cydweithio i ystyried newidiadau i'r broses, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau allan o'r ymarfer wrth i adrannau asesu effaith eu penderfyniadau polisi ar wahanol nodweddion cydraddoldeb ac iaith.*<br><br>**Diweddariad 2019 - 2020:**<br><br>Mae'r gwaith ar y cyd gyda'r Swyddog Cydraddoldeb wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Un o'r rhwystrau y bu rhaid i ni eu goresgyn a'u taclo oedd cael eglurder ar statws iaith o fewn materion cydraddoldeb. Rydym yn dal i fod yn awyddus i gynnwys iaith fel rhan o asesiadau cydraddoldeb, a hynny er mwyn sicrhau bod yr iaith yn cael ei integreiddio o fewn ystyriaethau allweddol ehangach, yn hytrach na bod yn fater ar wahân. Rydym yn cydnabod, serch hynny bod angen i ni hefyd sicrhau cysondeb, ac hefyd sicrhau asesiadau manylach mewn rhai achosion.<br><br>Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd y Llywodraeth ddeddfwriaeth drafft ym maes cydraddoldeb a hawliau dynol, ac rydym yn mawr obeithio y |

| | |
|---|---|
| | bydd y ddogfen derfynol yn ymateb i'r materion godwyd gennym yn yr ymgynghori ac yn rhoi gwell eglurder ar statws iaith o fewn y ddeddfwriaeth.<br><br>Bu gwaith yn cael ei wneud ar lefel ranbarthol i ddatblygu templed asesu effaith cydraddoldeb, ac rydym wedi bod yn rhan o'r gwaith hwnnw. Un o'r ystyriaethau allweddol i ni oedd sut rydym yn cynnwys "sbardun (triger)" o fewn y drefn fydd yn arwain at asesiad iaith manylach os yw'r cyd-destun yn gofyn am hynny.<br><br>Ochr yn ochr a'r gwaith yma rydym wedi bod yn gweithio ar dempled asesu effaith manwl ar gyfer y Cyngor, fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer penderfyniadau a chynlluniau strategol mawr.<br><br>Yn ystod y flwyddyn hefyd –ym mis Medi 2019 - cafodd y Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Mon ei gyhoeddi, sydd yn golygu bod y gofynion newydd ar ddatblygwyr i lunio Datganiadau neu Asesiadau Iaith bellach yn weithredol.<br><br>Yn ystod y chwe mis cyntaf, derbyniodd yr Uned Iaith 18 o ddatganiadau a dogfennau oedd yn edrych ar effaith ieithyddol ceisiadau cynllunio. Mae'r datganiadau hyn yn sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei gyflwyno i Aelodau Etholedig er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am geisiadau a'u heffaith posib ar ffyniant y Gymraeg yn ein cymunedau.<br><br>Mae cydweithio parhaus rhwng staff yr Uned Iaith a'r gwasanaeth Cynllunio er mwyn rhannu gwybodaeth a gwella trefniadau mewnol, a chafodd system ar-lein newydd ei chyhoeddi gan y gwasanaeth Cynllunio yn ystod y flwyddyn er mwyn galluogi'r cyhoedd i chwilio ac olrhain ceisiadau. |
| **Camau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf** | Y cam nesaf fydd codi ymwybyddiaeth swyddogion a rheolwyr perthnasol ar draws y Cyngor o'r trefniadau a'r templedi newydd.<br><br>O safbwynt y drefn gynllunio, bydd y pwyslais ar sefydlu trefniadau monitro effeithiol ar gyfer y datganiadau ac asesiadau iaith, fel bod y Cyngor yn gallu cydweithio efo'r datblygwyr i ddatblygu'r sylfaen tystiolaeth sydd ei angen ar gyfer y dyfodol. |

| MAES GWAITH | DYNODIADAU IAITH – MAPIO LEFELAU IAITH SWYDDI A SGILIAU STAFF |
|---|---|
| **Safonau perthnasol** | Safonau **Gweithredu** yn ymwneud ag asesu sgiliau iaith ein cyflogeion<br><br>127+136+136A |
| **Camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn 2019-20** | **Yn adroddiad 2018-19, dwedwyd:**<br><br>*Yn ystod 2018-19 sefydlwyd trefn newydd ar gyfer pennu gofynion ieithyddol wrth benodi i swyddi newydd.*<br><br>*Yn ystod y flwyddyn hefyd, cwblhawyd rhan gyntaf y gwaith o fapio sgiliau ieithyddol y swyddi sydd eisoes yn bodoli yn y Cyngor. Mae pob adran o fewn y Cyngor bellach wedi edrych ar fanylion person pob swydd o fewn eu gwasanaethau, a gwirio a yw'r lefelau iaith wedi eu gosod yn briodol ar gyfer gofynion y swydd.*<br><br>*Ail gam y gwaith hwn, sydd eisoes ar waith, yw adnabod a yw'r swyddogion sydd yn y swyddi hynny ar hyn o bryd yn cyrraedd y gofynion iaith neu beidio*<br><br>**Diweddariad 2019 - 2020:**<br><br>Ceir adroddiad penodol am y gwaith hwn isod, lle yr adroddir ar niferoedd y staff sydd yn gallu'r Gymraeg, ond gwnaed gwaith sylweddol ar y prosiect hwn yn ystod 2019-20.<br><br>Er mwyn i'r dynodiadau weithio yn effeithiol yn y tymor hir, roedd yn rhaid i ni edrych ar y broses gyfan, o'r pwynt y bydd rheolwr yn penderfynu creu swydd newydd i'r pwynt mae aelod o staff yn cael eu penodi ac y mae anghenion hyfforddiant yn cael eu hadnabod – ac yna y tu hwnt i hynny os oes angen i ddatblygu sgiliau iaith yn cael ei adnabod.<br><br>Sefydlwyd **Bwrdd Prosiect** newydd yn ystod y flwyddyn, felly, er mwyn cydlynu'r gwaith ehangach yma ac i sicrhau bod parhad y prosiect yn cael ei wreiddio.<br><br>Yn ystod 2019-20, roedd gwaith y bwrdd prosiect yn canolbwyntio ar dargedu staff rheng flaen ac yn anelu at asesu 1500 o unigolion erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Ochr yn ochr a'r gwaith o adnabod y lefelau ieithyddol roedd gwaith i adnabod anghenion datblygu ac i drefnu hyfforddiant ar gyfer y staff hynny nad oeddynt yn cyrraedd lefel dynodiad y swydd eto.<br><br>Mae'r broses yma o asesu sgiliau yn gallu digwydd mewn dwy ffordd – naill ai drwy asesiad gan reolwr llinell neu drwy holiadur hunanasesiad. Y nod yn y pen draw yw bod pob aelod o staff wedi |

| | |
|---|---|
| | cwblhau'r hunanasesiad, ond pwysleisir bod hynny yn nod tymor hir. Mae'r hunanasesiad hwn yn eistedd o fewn y mewnrwyd hunanwasanaeth staff, sydd hefyd wrthi yn cael ei ddatblygu.<br><br>Mae'r adroddiad cyntaf a grëwyd o'r system gofnodi electronig newydd yn dangos bod **3034** o unigolion wedi cael eu hasesu, a bod **2764 (91.1%)** o'r rheiny a gafodd eu hasesu **yn cyrraedd neu basio**'r gofynion **a 269 (8.9%) yn is** na dynodiad eu swydd.<br><br>Trefnwyd hyfforddiant ar gyfer y rhai nad oeddynt yn cyrraedd y dynodiad, ac mae **7 unigolyn** bellach wedi datblygu eu sgiliau yn sgil hyfforddiant a chefnogaeth ac yn cyrraedd Dynodiadau Iaith eu swyddi**.**<br><br>Un o'r materion a drafodwyd yn y Bwrdd Prosiect oedd sut y gallwn ni amlygu'r angen i fod â rhyw allu yn y Gymraeg i weithio o fewn y Cyngor yn yr hysbysebion a disgrifiadau swyddi, sut y gallwn ni amlygu'r ffaith bod y sgiliau ieithyddol yn "hanfodol", ac hefyd sut y gallwn ni hefyd fanteisio ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth darpar ymgeiswyr am swyddi am y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu yn fewnol – drwy gyfrwng y Gymraeg. Roeddem hefyd eisiau edrych ar sut y gallem annog ceisiadau gan unigolion nad ydynt efallai yn cwrdd a'r gofynion iaith ar hyn o bryd i ymgeisio am swyddi drwy amlygu'r ffaith bod cefnogaeth a hyfforddiant ar gael i bawb.<br><br>Rydym felly wedi cytuno ar eiriad safonol newydd ar gyfer hysbysebion swyddi sydd nid yn unig yn tynnu sylw at y gofynion ieithyddol – sydd yn cael eu nodi yn y manylion person – ond hefyd at ddefnydd y Gymraeg o fewn y Cyngor.<br><br>Bydd y geiriad newydd hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw swyddi newydd o hyn ymlaen.<br><br>Bu'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu a TG yn datblygu system electronig fewnol fydd yn ein galluogi i ddadansoddi a thracio'r dynodiadau, a bydd y system hon yn trawsnewid y ffordd rydym yn cofnodi sgiliau ac yn adrodd arnynt. |
| **Camau pellach yn ystod y flwyddyn nesaf** | Byddwn yn parhau i weithio tuag at gael y nifer mwyaf posib o staff i gwblhau'r hunanasesiad, er mwyn rhoi'r darlun llawnaf posib i ni o sgiliau iaith y gweithlu.<br><br>Rydym wedi dysgu dros y flwyddyn ddiwethaf ei bod yn annhebygol y byddwn byth yn gallu darparu darlun 100% ar unrhyw adeg gan fod y darlun o ran niferoedd staff yn newid yn gyson o ganlyniad i drosiant etc a bod y data sydd yn cael ei ddal ar unrhyw adeg yn dyddio yn |

| | |
|---|---|
| | sydyn, ond y gobaith yw y bydd y system newydd sydd wedi ei datblygu i ddal y wybodaeth am y dynodiadau (ac sydd bellach wedi ei lansio erbyn ysgrifennu'r adroddiad hwn) yn y pen draw yn ein galluogi i adrodd mewn ffordd fwy soffistigedig ar sgiliau iaith y gweithlu a chael darlun byw o broffil iaith ein staff.<br><br>Gellir gweld enghreifftiau o'r data y gallwn ei gasglu yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.<br><br>Mae'r materion a drafodwyd gan y Bwrdd Prosiect yn ddiweddar, ac a fydd yn cael eu datblygu ymhellach dros y flwyddyn nesaf, hefyd yn cynnwys y modd yr ydym yn gallu olrhain y dysgwyr, er mwyn dangos eu taith tuag at gyrraedd y dynodiad, ac edrych ar sut y gallwn gryfhau'r trefniadau cyfweld er mwyn gallu asesu sgiliau wrth benodi.<br><br>Rydym hefyd yn mynd i fod yn gweithio ar ddehongli'r data sydd yn cael ei ddal o fewn y system newydd er mwyn creu adroddiadau ystyrlon.<br><br>Gobeithiwn hefyd allu mynd ôl at yr arfarniadau swyddi ymhen amser, a samplo swyddi ar wahanol lefelau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i fod ar y lefelau cywir. |

**2.2 Trosglwyddo Gwasanaeth Hamdden**

Yn ychwanegol at y materion datblygol uchod, un o'r newidiadau mawr a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn oedd trosglwyddo y gwasanaeth Hamdden i gwmni cyfyngedig drwy warant, sydd yn gweithredu'r cytundeb ar ran y Cyngor i reoli Canolfannau Hamdden yn y Sir, ac yn darparu ystod o wasanaethau Chwaraeon, Iechyd a Ffitrwydd. Er bod llawer o'r gwaith paratoadol wedi digwydd yn ystod y flwyddyn flaenorol, trosglwyddodd y gwasanaeth yn ffurfiol ym mis Ebrill 2019, gyda chytundeb lefel gwasanaeth wedi ei gytuno a'i sefydlu fydd yn sicrhau cyfrifoldebau ieithyddol y gwasanaeth, a 250 o staff wedi trosglwyddo gyda'r gwasanaeth. Datblygwyd Polisi Iaith unigryw i'r cwmni, sydd yn cyfateb i bolisi y Cyngor, ond hefyd yn cynnwys cymalau ychwanegol i adlewyrchu gwaith penodol y gwasanaeth. Mae cydweithio wedi bod gyda'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu hefyd, er mwyn sicrhau bod y dynodiadau iaith ar gyfer y swyddi yn uchelgeisiol, ac yn galluogi'r cwmni i gynllunio'r gweithlu mewn modd sydd yn sicrhau'r gwasanaeth Cymraeg ac yn ateb angen y cyhoedd.

Mae'r gwasanaeth yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Iaith a'i swyddogion a chedwir cofnod o'u cydymffurfiaeth ar wahanol faterion drwy systemau canolog. Isod, gwelir eu cofnod hyfforddiant a sgiliau iaith.

**Cofnod hyfforddiant Byw'n Iach**

Nifer digwyddiadau hyfforddiant o fewn y flwyddyn 2019-20: **62**

Nifer y teitlau unigol: **20**

*Cofier bod llawer o hyfforddiant arbenigol yn cael eu darparu yn y maes hwn ac felly nad yw bob tro yn bosib eu cael drwy gyfrwng y Gymraeg.*

| DIGWYDDIADAU HYFFORDDI | NIFER | MYNYCHWYR UNIGRYW |
|---|---|---|
| Cymraeg | 30 | 41 |
| Saesneg | 21 | 35 |
| Dwyieithog | 11 | 31 |

**Sgiliau Iaith Staff:**

| | |
|---|---|
| **Nifer asesiadau** | **91** |
| **Nifer sy'n cyrraedd y Dynodiadau Iaith** | 80 |
| **Nifer sy'n is na'r Dynodiadau Iaith** | 11 |

| **Nifer ar lefelau:** | |
|---|---|
| Hyfedredd | 32 |
| Uwch | 14 |
| Canolradd | 12 |
| Sylfaen | 5 |
| Mynediad | 4 |
| Dim Sgiliau | 0 |

## 2.3 Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23

Yn ystod 2018-19 cafodd cynllun strategol newydd y Cyngor ar gyfer hybu'r Gymraeg ei gyhoeddi yn unol a'r gofyniad yn y Safonau. Mae ***Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023*** yn ymgais i adnabod y prif heriau a chyfleoedd sydd yn wynebu'r Gymraeg yng Ngwynedd. Y nod cyffredinol yw cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, drwy wasanaethau'r Cyngor ei hun ac yn gymunedol. Roedd Pwyllgor Iaith y Cyngor yn rhan allweddol yn llunio'r cynllun hwn ac maent yn cadw trosolwg dros ei weithrediad drwy dderbyn adroddiadau rheolaidd am wahanol brosiectau a ffrydiau gwaith sydd yn cyfrannu tuag at y weledigaeth.

Cafodd rhaglen waith gychwynnol ei chreu ar gyfer y Cynllun, a bydd adroddiad diweddaru ar weithrediad y rhaglen honno yn cael ei chyhoeddi yn fuan, ynghyd â rhaglen waith cam 2.

## 3. Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg

### ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170 - *(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg*

Oherwydd y sefyllfa gyfredol wrth baratoi'r adroddiad hwn, a chyda threfniadau gweithio wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i Covid-19, ni fu yn bosib casglu data yn uniongyrchol gan adrannau unigol am nifer y cyflogeion sydd yn gallu'r Gymraeg fel yn y gorffennol.

Yn hytrach, rydym wedi penderfynu adrodd, hyd y gallwn, ar y data mae'r system dynodiadau iaith newydd yn ei roi i ni.

Mae prosiect y dynodiadau iaith wedi bod ar waith ers cryn amser bellach, a bwriad y gwaith oedd adnabod y sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer pob swydd unigol – gan ystyried pethau megis beth fyddai'r gwahanol gyfrifoldebau o ran lefel y cyswllt gyda'r cyhoedd ac adrodd neu gofnodi ar lafar neu yn ysgrifenedig. Mae gosod y gofynion ar gyfer y swyddi nid yn unig yn galluogi'r Cyngor i gynllunio'r gweithlu, ond hefyd i sicrhau bod y trigolion yn gallu cael y gwasanaethau Cymraeg mae nhw eu hangen.

Bydd defnyddio'r system newydd yn rhoi adroddiad gwahanol iawn i ni o adroddiadau'r gorffennol, ond hefyd yn rhoi gwell dadansoddiad i ni o'r sgiliau sydd gan ein gweithwyr gyferbyn a'r sgiliau sydd eu hangen arnom i allu darparu'r gwasanaethau gorau.

Byddwn maes o law yn gallu cynhyrchu adroddiadau o fewn y system fydd yn ein galluogi i olrhain newidiadau o fewn y gwasanaethau, adnabod bylchau o ran sgiliau iaith, ac hefyd olrhain cynnydd y dysgwyr sydd yn derbyn hyfforddiant iaith er mwyn cyrraedd dynodiad eu swyddi.

Nid ydym yn adrodd ar ddata staff ysgolion yn yr adroddiad hwn, ond byddwn yn ychwanegu diweddariad fydd yn cynnwys staff addysgu ac ysgolion yn ddiweddarach yn flwyddyn pan fydd yr amgylchiadau yn caniatáu i ni wneud hynny.

Y nifer rydym yn adrodd arno yw nifer y staff sydd wedi cael eu hasesu. Bydd y nifer hwn felly yn cynyddu a newid wrth i ni barhau gyda'r gwaith dros y flwyddyn nesaf.

**SYLWER:**

*****Mae hon yn system newydd iawn, ac felly dylid edrych ar y ffigyrau hyn gyda gair o rybudd. Rydym yn dal i weithio ar gael y system i weithio yn union fel yr hoffem ac i gynhyrchu'r adroddiadau rydym ni'n dymuno eu cael, ond mae'r adroddiad isod yn rhoi syniad i chi o'r hyn y bydd yn bosib i ni ei wneud.

- Rydym bellach wedi gwirio manylion **pob swydd** o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau bod y dynodiad iaith yn gywir ar gyfer gofynion y swydd.
- Mae **pob un swydd newydd** yn gorfod dilyn trefn benodol ar gyfer gosod y dynodiad iaith cywir.
- Mae **pob swydd** yn cynnwys gofynion iaith ***hanfodol***. H.y. mae angen rhyw elfen o sgiliau iaith ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor.

- Rydym wedi edrych ar eiriad yr hysbysebion swyddi, er mwyn sicrhau bod yr elfen hon, a'n cydymffurfiaeth gyda'r safonau yn glir, a bydd newidiadau/addasiadau i'r geiriad yn cael eu gweithredu yn fuan.
- Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth am unigolion (aelodau staff) yn waith parhaus, ac nid yw'n debygol y bydd y ffigyrau a nodir uchod byth yn adlewyrchu yn union nifer y staff sydd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor. Anelir, fodd bynnag, i gael y darlun llawnaf a chywiraf posib o sgiliau y gweithlu ar unrhyw gyfnod. Mae trosiant staff, newidiadau mewn swyddi, ailstrwythuro, ac unigolion sydd yn dal mwy nag un swydd o fewn y Cyngor i gyd yn ffactorau sydd yn effeithio ar gywirdeb y data.
- Nid ydym yn adrodd ar staff sydd ar gyflogres y Cyngor ond yn rhan o'r adrannau canlynol- **GwE, NMWTRA, a'r Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru** - gan eu bod yn cydbwyllgorau neu yn asiantaethau rhanbarthol, ac felly ddim yn atebol i ofynion y Safonau.
- Mae'r **gwasanaeth Hamdden**, oedd yn rhan o Adran Economi'r Cyngor, bellach wedi trosglwyddo i gwmni allanol. Gellir gweld cofnod o sgiliau iaith y gwasanaeth hwnnw yn y cofnod am y trosglwyddo yn gynharach yn yr adroddiad.

## Adroddiad Sgiliau:

Gwybodaeth yn gywir amser ysgrifennu'r adroddiad ac wedi ei dynnu o adroddiadau perfformiad mewnol o fis Mawrth 2020 ac o'r system ym mis Mehefin (ond data yn perthyn i flwyddyn ariannol 2019-20)

### Darlun cyffredinol:

| | |
|---|---|
| Nifer yr aelodau staff (nifer pobl ar gyflogres y Cyngor), heb gynnwys staff ysgolion | **3,677** |
| Nifer aelodau staff a aseswyd hyd yma | **3034** |
| Nifer sydd yn cyrraedd gofynion y swydd o'r rhai a aseswyd | **2765 (91.1%)** |
| Nifer nad ydynt yn cwrdd a gofynion y swydd | **269 (8.9%)** |
| Nifer aelodau staff a aseswyd i fod heb unrhyw sgiliau yn y Gymraeg (holl adrannau'r Cyngor) | 4 |

Mae'r nifer a nodir uchod o 200+ o staff sydd ddim yn cyrraedd y dynodiad iaith ar gyfer y swydd yn gamarweiniol, gan nad yw'n adlewyrchu'r ffaith bod nifer fawr ohonynt yn datblygu eu sgiliau ac yn gwneud cynnydd tuag at y dynodiad. Yn yr un modd, bydd unrhyw staff sydd heb sgiliau o gwbl ar hyn o bryd yn cael pob anogaeth i ddechrau ar eu taith dysgu.

### Lefelau Iaith swyddi – nifer y swyddi ar draws y Cyngor sydd wedi eu dynodi fesul lefel:

(gan fod y lefelau yn gallu amrywio o fewn un swydd – h.y. bod lefel y sgiliau siarad a gwrando wedi ei osod yn uwch na'r lefel ysgrifenedig sydd ei angen – rydym yn cyfrif y lefel siarad a gwrando ar gyfer y mesur hwn gan mai honno yw'r lefel uchaf fel rheol pan fydd yna amrywiadau)




Rydym yn gallu edrych ar y dadansoddiad hwn ar lefel adrannol hefyd, gan ein galluogi i weld lle mae'r swyddi lle mae lefelau is wedi eu nodi. Mae nifer o swyddi yr adran Priffyrdd, er enghraifft, yn rhai lle nad oes angen sgiliau uwch yn y Gymraeg oherwydd bod llai o gyswllt uniongyrchol a wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd. Byddwn yn gallu gymryd sampl o'r swyddi hyn ar unrhyw adeg a chynnal gwiriad o ddynodiad y swydd.

Mae'r darlun isod yn rhoi esiampl o wahanol swyddi lle mae'r anghenion ieithyddol wedi cael eu gosod ar y gwahanol lefelau ieithyddol, ac yn dangos sut mae'r lefelau yn gallu amrywio o fewn un swydd.

| **Enghreifftiau o swyddi â Dynodiadau Iaith gwahanol** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gorfodaeth Parcio (Amgylchedd)** | | | | |
| | Teitl swydd | Gofynion ieithyddol darllen a deall | Gofynion ieithyddol gwrando a siarad | Gofynion ieithyddol ysgrifennu |
| | Swyddog Gorfodaeth Sifil | Canolradd | Sylfaen | Sylfaen |
| **Cyflogau (Cyllid)** | | | | |
| | Teitl swydd | Gofynion ieithyddol darllen a deall | Gofynion ieithyddol gwrando a siarad | Gofynion ieithyddol ysgrifennu |
| | Goruchwyliwr Cyflogau | Uwch | Uwch | Canolradd |
| **Cynnal a Chadw a Chadwraeth (Tai ac Eiddo)** | | | | |
| | Teitl swydd | Gofynion ieithyddol darllen a deall | Gofynion ieithyddol gwrando a siarad | Gofynion ieithyddol ysgrifennu |
| | Swyddog Cynnal a Chadw Adeiladau | Canolradd | Uwch | Canolradd |
| **Llyfrgelloed (Economi)** | | | | |
| | Teitl swydd | Gofynion ieithyddol darllen a deall | Gofynion ieithyddol gwrando a siarad | Gofynion ieithyddol ysgrifennu |
| | Gofalwr / Gyrrwr Cynorthwyol | Sylfaen | Sylfaen | Sylfaen |
| **Adnoddau Dynol (Cefnogaeth Gorfforaethol)** | | | | |
| | Teitl swydd | Gofynion ieithyddol darllen a deall | Gofynion ieithyddol gwrando a siarad | Gofynion ieithyddol ysgrifennu |
| | Swyddog Adnoddau Dynol | Uwch | Uwch | Uwch |
| **Safleoedd Ailgylchu (Priffyrdd a Bwrdeistrefol)** | | | | |
| | Teitl swydd | Gofynion ieithyddol darllen a deall | Gofynion ieithyddol gwrando a siarad | Gofynion ieithyddol ysgrifennu |
| | Gyrrwr LGV Safleoedd | Mynediad | Mynediad | Mynediad |

## Lefelau Iaith y staff fesul adran:

Mae'r darlun isod yn dangos sgiliau iaith y gweithlu fel y mae wedi ei asesu ar hyn o bryd. Gwelir bod mwyafrif y gweithlu yn meddu ar sgiliau Canolradd neu Uwch

## Lefelau iaith staff ADRANNAU CANOLOG (ac eithrio staff ysgolion)

(Dim Asiantaeth Cefnffyrdd, Byw'n Iach, GwE, Bwrdd Uchelgais, na staff ysgolion Gwynedd)

03/06/2020

| | Addysg (dim ysgolion) | Amgylchedd | Cyllid | CG | Economi | Oedolion | Plant | PaB | T ac E | YGC | TA |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyfedredd | 178 | 59 | 106 | 106 | 75 | 169 | 111 | 38 | 33 | 51 | 5 |
| Uwch | 145 | 29 | 48 | 17 | 42 | 63 | 31 | 24 | 21 | 37 | 4 |
| Canolradd | 63 | 3 | 6 | 2 | 3 | 20 | 7 | 9 | 0 | 6 | 1 |
| Sylfaen | 41 | 2 | 1 | 0 | 6 | 18 | 7 | 0 | 0 | 6 | 0 |
| Mynediad | 36 | 2 | 0 | 0 | 0 | 22 | 8 | 1 | 2 | 5 | 0 |
| Dim sgiliau | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| Asesiad RhLI (disgwy | 0 | 58 | 24 | 62 | 8 | 32 | 27 | 47 | 44 | 5 | 0 |




Bydd y system hefyd yn ein galluogi i gymharu y ddau set o ddata – lefel y swydd a lefel yr unigolion – i weld sut rydym yn llwyddo i gynllunio'r gweithlu i ateb ein anghenion.

Gwelir isod enghraifft o ddwy adran, sydd yn dangos yn glir bod lefel sgiliau'r staff yn gyffredinol yn uwch na'r lefelau sydd wedi eu gosod ar gyfer anghenion sylfaenol y swyddi. Noder bod nifer y swyddi yn ymddangos ychydig yn uwch na'r nifer pobl –gallai hyn fod oherwydd nad ydym eto wedi derbyn canlyniad yr asesiad ar gyfer pob aelod o staff, ac felly bydd y darlun hwn yn newid dros amser, wrth i ni gael y gweithlu cyfan i gwblhau'r hunanasesiad.




Allwedd lliwiau:

## 4. Adrodd ar hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i staff a datblygu sgiliau iaith

### ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170 –

***(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);***

***(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);***

Caiff holl raglen hyfforddiant canolog y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg, gyda chyrsiau ar gael yn Saesneg drwy gais yn unig. Darperir fersiwn Gymraeg a Saesneg o rai cyrsiau ar wahân lle mae galw am hynny, ond fel rheol ceisiwn sicrhau bod yr holl hyfforddiant yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Yr unig amgylchiadau lle bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig yw pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol, a phrynu gwasanaethau hyfforddwyr arbenigol i mewn. Hyd yn oed bryd hynny, gwneir pob ymdrech wrth gomisiynu gwasanaethau i gael deunyddiau dwyieithog a chymerir pob cyfle i geisio dylanwadu ar ddarparwyr cenedlaethol i ddarparu yn ddwyieithog.

Nifer "**digwyddiadau**" hyfforddi mewnol yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2019 i 30 Mawrth 2020: **910**

Nifer teitlau unigol o fewn y digwyddiadau hynny: **248**

Mae hyn yn gyfuniad o deitlau 'corfforaethol' ac 'arbenigol' ac yn cynnwys pob math o ddysgu – wyneb yn wyneb, e-fodiwlau a webinarau.

| DIGWYDDIADAU HYFFORDDI | NIFER | MYNYCHWYR UNIGRYW |
|---|---|---|
| Cymraeg | 463 | 1805 |
| Saesneg | 225 | 1021 |
| Dwyieithog | 222 | 765 |

**Nid** yw'r ffigwr yn cynnwys hyfforddiant sydd yn cael ei ddarparu neu ei hwyluso gan y gwasanaeth Dysgu a Datblygu, ar gyfer yr adrannau canlynol*:* ***BYW'N IACH, Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru a'r Cnaolbarth (NMWTRA) GWE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Consortiwm, Uned Lyfryddol Gogledd Cymru*****)**

## 5. Adrodd ar ofynion iaith wrth benodi

**ADRODD YN UNOL Â GOFYNION SAFON 170 –**
***(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –***
***(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol***
***(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,***
***(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu***
***(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);***

Mae pob swydd a hysbysebir gan y Cyngor yn gofyn am rhyw elfen o allu yn y Gymraeg, ac yn ystod blwyddyn 2019-20 hysbysebwyd **637 o swyddi** ar wefan y Cyngor.

Mae pob swydd sydd yn cael ei hysbysebu yn cynnwys esboniad clir o pa lefel o sgiliau llafar, ysgrifenedig a darllen a deall sydd eu hangen ar gyfer y gwaith dan sylw.

Mae geiriad penodol wedi ei gytuno yn ystod y flwyddyn i'w gynnwys mewn hysbysebion, fydd yn tynnu sylw at y ffaith bod y dynodiad yn angenrheidiol ar gyfer gofynion y swydd, ond y byddwn yn croesawu ceisiadau gan bobl nad ydynt eto a'r lefel sgiliau a nodir, ond sydd yn fodlon ymrwymo i ddysgu'r Gymraeg wedi eu penodi.

Mae hyn yn ddatblygiad pwysig, ac yn elfen hanfodol o brosiect y dynodiadau iaith, gan nad ydym am i unrhyw un deimlo bod y Cyngor yn gwahaniaethu yn erbyn rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, ond ein bod ar yr un pryd yn rhoi pwys mawr ar sicrhau bod y sgiliau cywir gennym o fewn y gweithlu i allu darparu ein holl wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny yn ddi-ofyn.

## 6. Adrodd ar gwynion iaith 2019-2020

Nodir yma nifer y cwynion a dderbyniwyd drwy ein system gorfforaethol yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cael eu cyfrif fel cwynion yn erbyn y Polisi Iaith, felly nid o reidrwydd yn ymwneud bob tro a materion sydd yn cael eu cwmpasu gan y Safonau. Mae rhai achosion fodd bynnag lle rydym wedi derbyn cwynion drwy'r drefn fewnol ac wedi derbyn ymholiadau gan y Comisiynydd hefyd. Yn yr achosion hynny, mae'r ffaith ein bod wedi gallu ymchwilio drwy'r drefn fewnol, yn golygu ein bod wedi gallu canfod datrysiadau ac adrodd ar hynny i'r Comisiynydd cyn iddo orfod mynd yn fater o ymchwiliad.

O ganlyniad, ni dderbyniwyd unrhyw rybuddion o ymchwiliadau gan y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd dyfarniad ar un achos ar ddiwedd blwyddyn 2018-19, gyda chamau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith yn ystod 2019, a gwelir manylion am y rheiny isod.

**Cofnod cwynion corfforaethol y flwyddyn:**

| Adran | Nifer y Cwynion |
|---|---|
| Cyllid | 2 |
| Tîm Arweinyddiaeth (Cyfreithiol) | 1 |
| Amgylchedd | 4 |
| Addysg | 2 |
| Ymgynghoriaeth | 1 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 5 |
| **Cyfanswm** | **14** |

**Cwynion a dderbyniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg: 1**

**CSG460** – Derbynneb uniaith Saesneg wedi ei anfon gan ***Bartneriaeth Prosesau Cosb Cymru***. Roedd y mater eisoes wedi dod i sylw'r Cyngor ac wedi ei ddatrys erbyn derbyn y gwyn gan y Comisiynydd, a chytunodd y Comisiynydd bod y Cyngor eisoes wedi delio gyda'r mater yn briodol.

**Nifer ymholiadau cyn ymchwilio gan y Comisiynydd: 3**

2 yn ymwneud ag arwyddion ffordd, ac 1 am gatalog ar-lein (sydd dal yn y broses o gael ei drafod).

Rydym yn ddiolchgar am y dull hwn o ymchwilio i gwynion, sydd yn galluogi'r Uned Iaith i wneud ymholiadau ac i ganfod datrysiadau anffurfiol gyntaf.

Rydym hefyd wedi gallu cyfeirio nifer o ymholiadau at y Comisiynydd yn ystod y flwyddyn, ac wedi cael eu cefnogaeth i ddatrys materion gyda thrydydd parti. Mae hon yn ffordd gadarnhaol o weithio ac rydym yn ddiolchgar i swyddogion y Comisiynydd am eu gwaith i geisio goresgyn rhai o'r rhwystrau sydd gennym gyda darparwyr a chwmnïau allanol wrth ddarparu gwasanaethau Cymraeg llawn i'n trigolion.

**Camau a gymerwyd i wella cydymffurfiaeth o ganlyniad i gwynion:**

Cymerir pob cwyn fel cyfle i wella ein gwasanaethau, a manteisir ar bob cyfle i atgoffa staff o'u cyfrifoldebau o safbwynt darparu gwasanaethau dwyieithog. O bryd i'w gilydd, fodd bynnag, bydd y cwynion yn amlygu angen adolygu trefniadau a chymryd camau penodol i gryfhau ein cydymffurfiaeth, i ddatrys sefyllfaoedd ac i sicrhau nad oes torriad eto o amodau'r polisi neu o ofynion y Safonau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae camau o'r fath wedi cynnwys y canlynol:

| **Adran** | **Testun y gwyn** | **Camau a gymerwyd** |
|---|---|---|
| **Addysg** | Cwyn am broses gyfweld.<br><br>Roedd yr achwynydd yn teimlo eu bod wedi cael eu rhoi dan anfantais gyda chyfweliad yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Honwyd hefyd nad oedd y gofynion iaith na'r wybodaeth bod y cyfweliad i gael ei gynnal yn Gymraeg yn ddigon clir yn y ddogfennaeth hysbysebu. | Trafodwyd y mater fel rhan o Fwrdd Prosiect y Dynodiadau Iaith. Cytunwyd bod gwersi i ddysgu o'r gwyn a bod angen edrych ar eiriad hysbysebion swyddi. Er ein bod yn gosod gofynion ac yn nodi'r lefel sgiliau iaith hanfodol yn manylion y person, efallai nad oeddem yn bod mor eglur ag y gallem am yr elfen "hanfodol" a bod yn rhaid cael y sgiliau hynny ar gyfer y swydd. Cytunwyd bod cyfle i addasu geiriad yr hysbyseb ei hun er mwyn amlygu'r angen am y sgiliau yn y Gymraeg ac hefyd i godi ymwybyddiaeth am ffordd o weithio mewnol y Cyngor. |
| | Ap sydd yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion i brosesu taliadau a chadw mewn cysylltiad gyda rhieni | Arweiniodd y gwyn at drafodaeth ehangach am yr apiau a systemau a ddefnyddir gan y Cyngor.<br><br>Anfonwyd cais at y Comisiynydd i gychwyn trafodaeth agored ar y mater, ac i gydweithio ar ddatrysiadau, gan ein bod yn teimlo bod nifer o'r rhwystrau yn rhai y tu hwnt i'n rheolaeth fel awdurdod unigol.<br><br>Byddwn yn parhau i weithio ar y mater yma yn ystod y flwyddyn gyfredol. |
| | **Ymchwiliad CSG236:**<br><br>Barnwyd bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio gyda dau Safon (Safon 1 | Mae Polisi Iaith y Cyngor yn datgan yn glir bod gan unrhyw aelod o staff hawl i |

| | | |
|---|---|---|
| | a Safon 112) ac wedi methu a delio gyda gohebiaeth a phroses apelio yn ei chyfanrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. | gyflwyno cwynion a dilyn proses gwynion drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Adolygwyd nifer o bolisïau mewnol sy'n ymwneud â hawliau gweithwyr, er mwyn sicrhau bod yr hawl iddynt ddilyn prosesau cwyno ac apelio mewnol drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei nodi yn eglur a chlir. |

## Atodiad 1

## Adroddiad Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2019-20

O safbwynt y ddarpariaeth a gynigiwyd i ddysgwyr, defnyddiwyd y trefniadau isod yn ôl y galw:

- Cyrsiau cymunedol dros gyfnod hir (dysgwyr yn mynychu unwaith neu ddwywaith yr wythnos yn y gymuned)
- Sesiynau Gloywi Iaith rheolaidd a gynhelir gan y Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) e.e. Gloywi Iaith, Treiglo, Cymraeg Elfennol
- Sesiynau unigol 1:1 gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) ar gais unigolion
- Sesiynau unigol 1:1 gyda thiwtoriaid allanol ar gais unigolion
- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy – yn y Prifysgolion neu Nant Gwrtheyrn)
- Cyrsiau ar-lein gan Dysgu Cymraeg e.e. Croeso Cymraeg Gwaith, Gwella Cymraeg Gwaith
- Gwersi a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer timau, megis staff cartrefi gofal

Yn 2020, dechreuwyd edrych ar wersi Cymraeg o bell hefyd, a fydd yn digwydd yn fuan yn y flwyddyn ariannol newydd.

**Mae'r tablau isod yn dangos y cofnod o niferoedd oedd yn derbyn hyfforddiant i ddatblygu sgiliau iaith fel ag yr oedd ar y 31 Mawrth 2019.**



Mae'r dysgwyr yn dilyn amrywiaeth eang o gyrsiau, fel a ganlyn:

| Cwrs | Nifer Unigolion |
|---|---|
| **Mewnol** | |
| **Gloywi Iaith** (1.5 diwrnod) | 28 |
| **Treiglo** (1 diwrnod) | 18 |
| **Sesiwn Sgwennu Ffurfiol** (1 awr) | 18 |
| **Allanol** | |
| Cyrsiau cymunedol Dysgu Cymraeg (Medi-Gorffennaf) | 13 |
| 1:1 mewnol (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg) | 2 |
| Cyrsiau Nant Gwrtheyrn | 7 |
| Cyrsiau Cymraeg Gwaith | 6 |
| Comisiynau | 10 |

**Mae'r dysgwyr hyn wedi eu rhannu ar draws adrannau'r Cyngor fel a ganlyn:**